

## **Arolygiad Anableddau Dysgu (Dirybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda, gwasanaeth  
preswyl y GIG: 16029**

Dyddiad arolygu: 7 Mehefin 2016

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd profiad y claf .....	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	17
5.	Y Camau nesaf .....	19
6.	Methodoleg .....	20
	Atodiad A.....	22

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o wasanaeth anabledau dysgu'r GIG ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 7 Mehefin 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad hwn yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC, ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth hwn yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anabledau dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae'r gwasanaeth a arolygwyd yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau anabledd dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Gwasanaeth cleifion mewnol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ydyw, sy'n arbenigo mewn gofalu am bobl ag anhwylderau sbectrwm awtistig ac ymddygiadau sy'n gymhleth a heriol.

Mae gan y lleoliad bum gwely. Roedd pum claf yn byw yno ar adeg yr arolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr ward (ar hyn o bryd yn cyflawni'r rôl dros dro ar sail dyrchafiad), nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth. Mae ymgynghorydd yn gweithio rhwng yr uned hon ac uned anableddau dysgu arall gyfagos.

Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth hwn yn darparu lefelau da o ofal unigoledig sy'n canolbwyntio ar y claf. Gwnaethom ddod i ganlyniad hefyd nad oedd y gwasanaeth yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Canfuom fod diffyg cefnogaeth gan uwch-reolwyr ar y safle ar gyfer y tîm staff. Canfuom fod cofnodion wedi'u trefnu'n wael iawn ac wedi'u cwblhau'n wael, ac nad oeddent yn darparu cofnod cywir o anghenion cefnogi'r cleifion, na'r gefnogaeth a oedd yn cael ei darparu. Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr gwael, ac roedd oedi sylweddol o ran cwblhau gwaith cynnal a chadw.

Roedd gennym bryderon sylweddol am yr uned a gwnaethom drafod hyn yn fanwl â'r bwrdd iechyd. Gwnaethom sôn am rai o'n pryderon ar unwaith ac rydym eisoes wedi bod mewn cyswllt â'r bwrdd iechyd ynghylch camau adferol angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion mwyaf pryderus a chydio yn y manau risg uchaf heb oedi. Mae angen gwelliannau pellach ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu pob un o'r rhain yn fanwl.

Roedd angen gwelliannau sylweddol mewn nifer o feysydd yn y gwasanaeth hwn. Yn gyfan gwbl, rydym wedi gwneud 21 o argymhellion ar gyfer gwella, ym meysydd profiad y claf, cyflenwi gofal diogel ac effeithiol, a rheolaeth ac arweinyddiaeth y gwasanaeth. Mae angen i'r gwasanaeth wneud gwelliannau sylweddol a bydd angen adolygu strwythurau cefnogi uwch er mwyn sicrhau bod yr adnoddau ar gael i alluogi hyn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

Ar y cyfan, dangosodd y dystiolaeth y gwnaethom ei chanfod nad yw'r uned hon yn darparu profiad o ansawdd da ar gyfer cleifion. Er bod y cleifion yn ymddangos yn hapus ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd y gwaith o gynllunio gweithgareddau, strwythurau'r drefn ddyddiol, na pheth o'r gefnogaeth a roddid yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion y cleifion nac yn darparu cyfleoedd digonol iddynt fedru cyflawni eu galluoedd.

Oherwydd cymhlethdod a lefel anghenion cyfathrebu'r cleifion yn y lleoliad hwn, nid oeddem yn medru ceisio safbwyntiau am y gwasanaeth ganddynt. Am fod yr ymweliad arolygu yn ddirybudd, nid oedd aelodau teulu na gofawyr (y tu hwnt i'r tîm staff) ar gael i siarad â ni.

Mae casgliadau'r tîm arolygu am ansawdd profiad y claf yn seiliedig felly ar dystiolaeth a ganfuom mewn cynlluniau gofal a thriniaeth, arsylwadau a wnaethom yn ystod ein hamser yn yr uned, a sgwrsiau a gynhaliwyd ag aelodau o'r staff ynghylch y ffordd maent yn cefnogi unigolion.

### **Cadw'n iach**

*Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofawyr unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu cynorthwyo. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)*

Gwnaeth meddyg teulu ymweld â'r uned bob wythnos, gan helpu i gefnogi iechyd y cleifion trwy gyflawni adolygiadau rheolaidd o anghenion iechyd corfforol parhaus, sicrhau bod mynediad priodol at weithwyr iechyd proffesiynol eraill – megis podiatryddion – a darparu cefnogaeth barhaus i reoli cyflyrau iechyd neu afiechydon rhag-hanfodol. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn sylw i helpu i reoli eu hanghenion iechyd er mwyn ceisio cynnal a gwella eu hiechyd cyffredinol.

Nid oedd nodiadau'r cleifion yn fanwl iawn ac roeddent yn anodd eu deall. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth bod optegydd wedi gweld y cleifion ond nid oedd y nodiadau'n dangos pryd digwyddodd hyn na beth oedd canlyniad yr apwyntiad. Mae hyn yn golygu na fyddai'r nodiadau'n darparu cofnod cywir o

anghenion presennol y cleifion a'u hanghenion am y dyfodol pe byddai angen i staff newydd fod yn gyfarwydd ag anghenion y cleifion.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid dogfennu'n fanwl anghenion iechyd unigolion fel y gall pob person sy'n darparu gofal ar eu cyfer fod yn eglur o ran pryd dylai apwyntiadau arferol ddigwydd. Bwriad hyn yw rheoli cyflyrau parhaus yn effeithiol.***

### **Gofal gydag urddas**

*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1 – Gofal Gydag Urddas)*

Roedd gan y grŵp cleifion oedd yn derbyn gofal yn yr uned hon lefelau cyfathrebu llafar oedd yn golygu bod angen iddynt ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu yn aml er mwyn eu helpu i fynegi eu hunain ac i fwyhau eu dealltwriaeth. Ni welsom unrhyw gymhorthion arbennig yn cael eu defnyddio yn ystod ein hamser yn y gwasanaeth.

Gwnaethom ofyn a oedd gan rai o'r cleifion ddealltwriaeth well o'r Gymraeg na'r Saesneg, ond nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n medru ateb y cwestiwn hwn yn glir. Gwelsom fod rhai o'r staff yn siarad yn Gymraeg â'i gilydd, ym mhresenoldeb y cleifion, ond yna yn Saesneg â'r cleifion eu hunain. Nid oeddem yn hyderus bod effaith siarad Cymraeg wedi cael ei hystyried yn iawn neu'n ofalus. Mae'n bosib bod y Gymraeg yn iaith gyntaf i rai o'r cleifion ac felly dylai'r staff fod yn fwy ystyriol o'r ffaith hon, ac o bosibl dylent annog ei defnydd lle bo'n briodol i anghenion unigol. Dylai'r staff o bosibl ystyried ym mha iaith maent yn siarad â'i gilydd pan fo cleifion yn bresennol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhoi ystyriaeth briodol i effaith defnyddio Cymraeg a Saesneg ym mhresenoldeb y cleifion ac wrth siarad yn uniongyrchol â nhw. Sicrhau bod aelodau o'r staff yn cadw'r cleifion mewn cof wrth iddynt gyfathrebu ymysg ei gilydd, a'u bod yn ei wneud ar amserau priodol yn unig.***

Gwelsom adeg pan aeth aelod o staff i mewn i ystafell wely claf heb guro'r drws na gofyn am ganiatâd i fynd i mewn. Dylid parchu preifatrwydd ac urddas cleifion ar bob adeg ac yn arbennig mewn mannau unigol. Nid oedd yr arfer a welsom yn cymryd hyn i ystyriaeth.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***



***Dylai staff fod yn ymwybodol o ystafelloedd unigol y cleifion a sicrhau eu bod cyn barchused â phosibl wrth fynd i'r manau hyn.***

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd na llenni na bleinds ar y ffenestri mewn nifer o ystafelloedd gwely. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn codi llenni dros dro yn ystod y nos – gwnaethom sylwi ar hen gynfas yn cael ei ddefnyddio. O ganlyniad i'r datrysiad dros dro hwn, roedd y ffenestri'n edrych yn flêr ac nid oedd yr ystafelloedd gwely'n fannau cartrefol, deniadol. Esboniodd y staff wrthym eu bod wedi bod yn aros ers peth amser (tua chwe mis) i'r staff cynnal a chadw ddod i ddisodli'r bleinds a'r llenni. Mae hyn yn oediad annerbyniol ac un sydd wedi gadael cleifion mewn ystafelloedd gwely na ellir eu gwneud yn breifat yn hawdd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r holl waith heb ei gyflawni ar ffenestri ystafelloedd gwely'r cleifion ar frys fel y gellir defnyddio bleinds a llenni priodol.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai rheolwr yr uned adolygu'r system ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw oedi gan y tîm cynnal a chadw er mwyn osgoi arosiadau cyhyd â hwn yn y dyfodol.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau rhwng y tîm cynnal a chadw a'r gwasanaethau anabledd dysgu er mwyn sicrhau y caiff ceisiadau ac amserau ateb eu blaenoriaethu'n briodol a rhesymol i alluogi'r cleifion hynny y mae'r uned hon yn gartref iddynt i fyw mewn amgylchedd cyn hyfryded â phosibl.***

### **Gofal amserol**

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir. (Safon 5.1)*

**Er i ni ganfod bod y tîm staff yn yr uned yn ystyriol ac yn dangos gwir ofal tuag at y cleifion, ni wnaethom ganfod unrhyw dystiolaeth i arddangos eu bod yn ystyried neu'n annog yn weithredol datblygu sgiliau byw'n annibynnol y cleifion. Nid oedd cynlluniau gweithredol ar waith i chwilio am unrhyw leoliadau eraill ar gyfer yr unigolion hyn ac roedd yr uned yn cael ei hystyried yn gartref hirdymor iddynt.**

**Gwnaethom godi pryderon ynglŷn â hyn; mae'r uned yn glinigol ac mae diffyg gweithgareddau. Gallai cleifion o bosibl dderbyn gwell ansawdd bywyd mewn lleoliad mwy cartrefol.**

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu addasrwydd y lleoliad a sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi gyda gweithgareddau sy'n mwyhau eu potensial o gael eu lleoli mewn gwasanaethau mwy cartrefol.**

**Gofal unigol**

*Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 – Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)*

**Roedd trefniadau beunyddiol yn amrywio rhwng cleifion yn unol â'u hoffterau a'u cas bethau. Fodd bynnag, roedd gweithgareddau a mynediad i weithgareddau yn y gymuned yn gyfyng. Roedd rhai o'r gweithgareddau ar gynnig i'r cleifion yn gyfyng ac yn darparu ychydig iawn o ysgogiad neu gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned leol; nid oeddent ychwaith yn gweithio ar wella sgiliau byw'n annibynnol. Roedd diffyg amrywiaeth a phrin oedd y mynediad at wasanaethau lleol.**

**Dangosodd y trefnau beunyddiol a welsom nad oedd y cleifion yn derbyn cyfleoedd priodol, digonol i wella eu hanghenion iechyd. Ni ddarparodd y staff unrhyw dystiolaeth i arddangos eu bod yn cynllunio i gynyddu lefel y gweithgareddau, na'u bod yn deall y rhesymau pam y byddai gwneud hynny'n fuddiol i ansawdd y gofal a ddarperir.**

**Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd adolygu hwn ar frys fel bod pobl yn cael eu helpu i fod mor annibynnol a chael ansawdd bywyd cystal â phosibl.**

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Yn ystod ein harolygiad, cododd AGIC bryderon ynghylch ansawdd gwael y gweithgareddau oedd ar gynnig i'r cleifion yn yr uned hon a gofynnwyd i'r gwasanaeth adolygu'r dull o gefnogi cleifion a'r gofal a ddarperir yn yr uned. Mae AGIC yn gofyn am ateb manwl sy'n arddangos beth sydd wedi'i wneud a beth fydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.**

Lle'r oedd risgiau arbennig i gleifion unigol – er enghraifft, tueddiad i geisio llyncu/bwyta sebon – gwelsom fod y staff wedi ymateb i hyn trwy dynnu'r sebon o'r ystafelloedd ymolchi. Roeddent wedi methu ag ystyried anghenion y cleifion eraill yn ddigonol wrth wneud hynny a dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn defnyddio dŵr yn unig i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled. Mewn achos o unrhyw afiechydon heintus, ni fyddai dŵr yn unig yn gallu lleihau'r risg o groes-heintio rhwng cleifion yn ddigonol. Mae hon yn un esiampl o'r arfer a ganfuom, ond roedd enghreifftiau eraill lle'r oedd strategaethau rheoli risg a roddwyd mewn grym ar gyfer unigolion yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl gleifion. Roedd yn ymddangos bod hyn oherwydd diffyg cynllunio ac ymyriadau priodol i gydio yn y risg wrth barchu anghenion unigol eraill.

Yr hyn y mae angen ei wella

Nid oedd y gwasanaeth hwn yn darparu lefelau da o ofal unigoleddig, ac nid arddangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'r rhesymau y mae hi'n bwysig sicrhau bod gofal yn cael ei gynllunio'n ofalus ar gyfer pob unigolyn. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu gwybodaeth a chymhwysedd y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwn. Dylai anghenion gofal gael eu hailasesu gan dîm amlddisgyblaethol i sicrhau nad yw cyfyngiadau unigol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl gleifion.

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 – Hawliau Pobl)*

Roedd cleifion yn yr uned oedd â chyfyngiadau arnynt, o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ill dau. Roedd y cyfyngiadau penodol oedd ar waith wedi'u dogfennu i raddau amrywiol yn eu cynlluniau gofal priodol. Fodd bynnag, canfuom nad oedd y cofnodion a wnaethpwyd wedi'u dyddio a'u llofnodi, ac nid oeddent wastad yn cynnwys y rhesymau dros y cyfyngiadau na'r rhesymeg wrth wraidd y strategaethau cefnogi.

Yr hyn y mae angen ei wella

O ran unrhyw gyfyngiadau a osodir ar gleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, dylai'r holl

**ddogfennau gael eu hysgrifennu'n eglur ac fe ddylent esbonio a chyfeirio at yr holl gyfyngiadau'n eglur.**

**Ar y diwrnod y gwnaethom ymweld â'r uned, gwelsom staff yn caniatáu i gleifion gael dewis o ran eu trefn feunyddiol, megis pryd i fynd allan, pryd i gael llonydd, a phryd i gael eu prydau bwyd, eu byrbrydau a'u diodydd.**

**Roedd y staff yn rheoli anghenion gofal ymataliaeth trwy ddefro un claf am amser penodol bob bore. Nid oeddem yn hyderus eu bod wedi ymchwilio'n ddigonol i bob datrysiad posibl i'w helpu i gefnogi'r claf mewn modd mor briodol â phosibl, a gwnaethom ofyn iddynt adolygu hyn. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y ffaith bod rhaid i gynlluniau rheoli barchu preifatrwydd, urddas a dewis cleifion.**

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gofal ymataliaeth a gyflenwir i gleifion i sicrhau ei fod yn unol ag arfer gorau, a'i fod yn parchu preifatrwydd, urddas a dewis unigolion.**

*Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio'u profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3 – Gwrando a Dysgu o Adborth)*

Cefnogwyd y cleifion i gynnal cysylltiad cyn agosed â phosibl â'u teuluoedd.

Mae gan y gwasanaeth achrediad gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, sy'n ymweld ac yn siarad â theuluoedd a chleifion i gael eu safbwyntiau. Ar wahân i hyn, nid oes gan yr uned system gydnabyddedig ar gyfer ceisio adborth cleifion a pherthnasau. Dylid ystyried defnyddio ffurfiau cyfathrebu a chymhorthion addas fel bod cleifion yn gallu cyfathrebu eu teimladau am wahanol agweddau ar y gwasanaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gweithredu ei system ei hun ar gyfer ceisio adborth gan y sawl sy'n gysylltiedig â derbyn gofal ganddo.***

## **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol**

Canfuom nifer o achosion lle nad oedd safonau'r gofal a oedd yn cael ei gyflenwi yn unol ag arfer gorau a lle'r oedd diffyg cynllunio gofal gan dîm amlddisgyblaethol llawn yn golygu nad oedd y cleifion yn derbyn y gofal mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion.

Ar y cyfan, rydym wedi dod i ganlyniad nad oedd y gwasanaeth yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Roedd hyn oherwydd y nifer a difrifoldeb y diffygion gwnaethom eu canfod. Rydym wedi gwneud y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r holl bryderon ac rydym wedi gofyn iddo fynd i'r afael ar frys ag ansawdd y gofal a'r safonau gwnaethom eu canfod yn y gwasanaeth hwn.

### **Gofal diogel**

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1 – Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)*

Canfuom fod diffyg dealltwriaeth ymysg staff yr uned hon ynghylch yr hyn a olygir gan neilltuaeth at ddibenion rheoli anghenion cleifion. Roedd y staff yn dosbarthu peth o'r gofal a'r gefnogaeth roeddent yn eu darparu fel gwahanu, ac nid fel neilltuaeth. Oherwydd hyn, nid ystyriwyd na roddwyd ar waith yr asesiadau risg a mesurau diogelu priodol a ddylai fod ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch parhaus y staff ac unrhyw glaf oedd yn cael ei neilltuo.

Gwnaethom godi ein pryderon o ran yr arfer a gyfeiriwyd ato gan aelodau staff fel gwahanu. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu darparu polisi ar gyfer yr arfer hwn a gyfeiriwyd ato'n wahanu. Heb bolisi addas yn disgrifio'r arfer hwn, mae heb y mesurau diogelu a ddylai fod ar waith ar gyfer cleifion ac aelodau o staff.

Yn ystod sesiwn adborth yr arolygiad, cytunodd y bwrdd iechyd y byddai'r arfer hwn yn cael ei adolygu ac y byddai polisi priodol yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod cleifion ac aelodau o'r staff yn cael eu diogelu.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd ailystyried y polisi neilltuaeth a sicrhau y gellir ei ddefnyddio i gefnogi staff yn ddigonol wrth iddynt reoli ymddygiadau heriol.***

***Sicrhau bod y staff yn deall yr hyn a olygir gan neilltuaeth.***

***Sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i amddiffyn staff a chleifion pan fyddant ar eu pennau eu hunain am unrhyw gyfnodau.***

Gwelsom hefyd nad oedd rhai o'r strategaethau a ddefnyddiwyd i reoli ymddygiadau heriol yn unol ag arferion gorau strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Roeddem yn poeni ynghylch hyn a gwnaethom drafod y peth gyda rheolwr yr uned. Dywedwyd wrthym fod llawer o'r staff yn yr uned wedi cwblhau hyfforddiant rheoli ymddygiad cadarnhaol ychwanegol ac felly roedd rheolwr yr uned yn ystyried bod ganddynt arbenigedd digonol yn yr uned i weithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac nid oedd angen iddynt ofyn am gyngor arbenigol o'r tu allan yn aml. Roeddem yn bryderus ynglŷn â hyn ac rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tîm amlddisgyblaethol llawn yn cael ei ailsefydlu fel bod mewnbwn holistaidd i gynlluniau cefnogi cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Adolygu'r defnydd o strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn yr uned a sicrhau mai'r ymyriadau mwyaf priodol posibl yw'r rhain.***

*Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion hydradu a maethol, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5 – Maeth a Hydradu)*

Roedd tystiolaeth bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn peth cymorth i fynd i'r gegin i helpu i baratoi prydau bwyd. Roedd hyn yn unol â chynlluniau cefnogi i fwydau dewisiadau ac annibyniaeth.

Yn gyffredinol, nid oedd y bwydydd oedd ar gael yn ymddangos eu bod yn gytbwys ac roedd y cinio ar gynnig yn ystod ein hymweliad yn cynnwys nifer fawr o bizzas gyda, ar y llaw arall, ychydig bach o salad. Er bod y salad yn edrych yn ffres ac archwaethus, nid oedd yn ffurfio swm digonol o'r pryd. Mae'r canllawiau diweddaraf, megis 'y plât bwyta'n iach', yn argymhell cyfran uwch o ffrwythau a llysiau i garbohydradau a brasterau. Rydym yn argymhell y dylid adolygu'r fwydlen a'r dewisiadau bwyd yn unol â hyn er mwyn sicrhau eu bod mor gytbwys â phosibl. Dylai'r staff sicrhau hefyd bod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud dewis ar sail gwybodaeth ynghylch eu deiet, gan roi help iddynt i ddeall risgiau gorfwyta a dewis opsiynau afiach yn lle opsiynau iachus.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Dylid adolygu dewisiadau'r fwydlen i sicrhau eu bod mor gytbwys â phosibl a'u bod yn cynnwys digon o ffrwythau a llysiau i ddiwallu canllawiau arbenigol cyfredol ac arfer gorau.**

*Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6 – Rheoli Meddyginiaethau)*

Ni wnaethom arolygu trefniadau rheoli meddyginiaeth yr uned yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd hwn oherwydd bod ein pryderon mewn meysydd eraill yn sylweddol ac roedd gofyn i ni ganoli ein hamser ar y meysydd eraill hyn.

*Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7 – Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed)*

**Roedd polisiau ar waith ar gyfer diogelu. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ac roeddent yn gallu trafod nifer fach o achlysuron pan oeddent wedi gwneud atgyfeiriadau ar gyfer ystyriaeth o dan weithdrefnau diogelu oedolion, a oedd yn arddangos eu bod yn ddigon hyderus i roi'r egwyddorion ar waith.**

**Nid oeddem yn hyderus am addasrwydd rhai o'r systemau rheoli ymddygiad a welsom ar waith a gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i adolygu'r rhain trwy gynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i adolygu cynlluniau gofal cleifion. Aethpwyd i'r afael â rhai o'n pryderon o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, a oedd yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd o fewn 48 awr i'n hymweliad arolygu a'n bod wedi derbyn ateb ganddynt yn barod. Rhoddwyd sicrwydd i ni eu bod yn cymryd camau adferol priodol i fynd i'r afael â'r hyn y gwnaethom ei amlygu, ond rhaid iddynt hefyd sicrhau y rhennir y gwersi a ddysgwyd yn sgil y canfyddiadau hyn yn ehangach ledled y gwasanaethau anabledd dysgu hyn a rhai eraill o fewn y bwrdd iechyd.**

**Gwnaethom ofyn eu bod yn adolygu'r meysydd penodol hyn:**

- **Dealltwriaeth y staff a defnydd neilltuaeth**
- **Y defnydd o ataliaeth wrth reoli ymddygiad**

- Y lefel o gysylltiad corfforol sy'n cael ei hystyried yn briodol a diogel i ddarparu sicrwydd a chysur i gleifion heb groesi ffiniau proffesiynol. Dylid ystyried a yw unrhyw gysylltiad mewn mannau personol yn briodol.

### Gofal effeithiol

*Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)*

**Nid oeddem yn hyderus bod yr arferion ar gyfer gofal, triniaeth a gwneud penderfyniadau a welsom yn unol ag arfer gorau a thystiolaeth. Y meysydd penodol lle gwnaethom nodi pryderon oedd:**

- Darpariaeth gofal ymataliaeth yn unol ag anghenion ymddygiadol penodol
- Atal a rheoli heintiau trwy gydol yr uned
- Cefnogaeth faethol, gan sicrhau bod prydau bwyd yn gytbwys a chan sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi i gael cymaint o fewnbwn â phosibl o ran dewis a pharatoi prydau
- Y defnydd o strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol
- Rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cyfyngol ar waith.

**Ni wneir unrhyw argymhellion penodol yn hyn o beth gan fod pob maes wedi cael sylw ar wahân mewn mannau eraill o'r adroddiad hwn.**

**Gwnaethom nodi hefyd bod cyfarfodydd amlddisgyblaethol wedi cynnwys staff nyrsio a staff meddygol gydag absenoldeb staff therapi a staff ymddygiad cadarnhaol a allai ddarparu'r mewnbwn holistaidd, cyflawn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynlluniau cefnogi gorau posibl. Rydym yn cydnabod bod hyn, ar brydiau, wedi bod o ganlyniad i'r adnoddau sydd ar gael, ond rhaid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal gorau posibl.**

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Nid yw'r adolygiadau amlddisgyblaethol wedi cynnwys pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol ac felly nid yw'r cynlluniau cefnogi wedi bod yn**



**wirioneddol holistaidd ac maent wedi bod yn brin o ganllawiau arbenigol mewn rhai meysydd. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion y maent yn darparu gofal anabledd dysgu arbenigol ar eu cyfer yn derbyn y mewnbwn hwn i'w cynlluniau cefnogi a thriniaeth, gan sicrhau eu bod yn ymchwilio i'r holl opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau'r adnodd arbenigol angenrheidiol ar gyfer cynllunio gofal holistaidd.**

*Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2 – Cyfathrebu'n Effeithiol)*

**Roedd gan gleifion anghenion cyfathrebu cymhleth. Dywedwyd wrthym fod cymhorthion cyfathrebu ar waith ar gyfer rhai unigolion ond ni welsom yr un o'r rhain yn cael eu defnyddio. Ar y cyfan, gwelsom fod yr uned yn llom a chlinigol. Roedd ambell lun neu arwyddion darluniadol yn cael eu defnyddio i helpu'r cleifion i symud o gwmpas yr uned. Ni welsom dystiolaeth benodol i ddangos bod cefnogi anghenion cyfathrebu yn flaenoriaeth uchel. Gwnaethom nodi bod mewnbwn cyfyngedig gan therapi iaith a lleferydd.**

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Adolygu'r gefnogaeth gyfathrebu a gynigir i gleifion a sicrhau y bachir ar y cyfle i fwyhau eu dealltwriaeth a'u cyfraniadau trwy ddefnyddio cymhorthion a strategaethau priodol.**

**Cadw cofnodion**

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol. (Safon 3.5 – Cadw Cofnodion)*

**Cadwyd cofnodion gofal cleifion ar bapur ac roedd rhai o'r cofnodion hefyd ar gael yn electronig. Ar y cyfan, roedd safon y cofnodion yn wael. Roedd y cofnodion papur yn cynnwys mwy o fanylion ond roedd y rhain yn anodd eu dilyn, yn brin o fanylion, ac yn aml nid oeddent mewn trefn gronolegol eglur. Mae hyn yn golygu na fyddai aelodau newydd o staff, neu staff sy'n dychwelyd ar ôl cyfnodau o absenoldeb, yn gallu dibynnu ar y cofnodion fel ffordd fanwl gywir o gael y wybodaeth ddiweddaraf**

ynghylch unrhyw newidiadau. Yn ogystal, nid oedd y cofnodion yn darparu'r cyfle i werthuso'r gofal a'r driniaeth ac ni fyddent yn rhoi manylion digonol fel y gallai unrhyw aelod o staff oedd yn anghyfarwydd â nhw ddarparu cleifion â'r lefel o gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt mewn amgylchiadau penodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu safon y cofnodion a gedwir yn yr uned. Roedd y manylion a gofnodwyd ar adeg ein harolygiad yn annigonol i ddarparu cofnod manwl a dibynadwy o anghenion cefnogi unigol ar gyfer staff. Roedd y cofnodion wedi'u trefnu a'u cynnal yn wael; gwnaethom nodi diffyg dyddiadau a llofnodion, a oedd yn golygu nad oedd hi'n bosibl gwybod pa mor ddiweddar oedd y cofnodion.

Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

Ar y cyfan, mae ein canfyddiadau wedi ein harwain i gasglu bod y rheolaeth ar safle'r uned hon yn wan. Yn ogystal, ni chanfuom dystiolaeth ddigonol o gefnogaeth gan yr uwch-reolwyr i fynd i'r afael â'r materion y gwnaethom eu canfod. Roeddem hefyd yn poeni am y graddau yr oedd y bwrdd iechyd i bob golwg yn anymwybodol o lefelau'r materion y gwnaethom eu canfod yn ystod ein harolygiad a beth mae hyn yn ei ddangos o ran effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion a ganfuwyd yn yr uned hon ac ystyried y materion a'r goblygiadau ar raddfa ehangach.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd a gynigir, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*

Mae'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu yn darparu gwasanaethau ar hyd tair sir gyda nifer sylweddol o filltiroedd rhwng rhai o'r gwasanaethau. Nid oeddem yn hyderus bod y trefniant hwn a gwasgariad y staff yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion yn y gwasanaethau hyn, sy'n gymhleth ac yn drwm. Gwnaethom nodi hefyd bod nifer gyfyngedig o nyrsys a staff a hyfforddwyd mewn anableddau dysgu ymysg yr uwch-reolwyr, ynghyd â diffyg staff cefnogi amlddisgyblaethol allweddol, sy'n gwneud hyn yn faes heriol i weithio ynddo o ran cael gafael ar wybodaeth arbenigol.

Dywedodd staff yr uned wrthym fod nifer o newidiadau ar lefel yr uwch-reolwyr wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi achosi peth ansicrwydd a diffyg eglurder o ran cyfeiriad y gwasanaethau yn y dyfodol, ac mae'r newidiadau hyn wedi golygu oedi ar adegau wrth wneud penderfyniadau. Dangoswyd copi i ni o'r strwythur rheoli ar gyfer y gwasanaeth anabledd dysgu a gwnaethom nodi ei fod yn ymddangos yn gymhleth iawn.

Dangosodd y siart strwythur fod yr uwch-reolwyr yn ceisio gosod strwythurau er mwyn mynd i'r afael â diffygion llywodraethu ac arweinyddiaeth, ond roedd yr adborth a gawsom gan staff yr uned yn awgrymu nad oedd yr uned eto'n cael elw o'r strwythurau hyn. Nid yw hi'n glir, felly, ai'r strwythurau yw'r modd iawn o sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf mewn uned heriol gyda chleifion heriol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Sicrhau bod y strwythur rheoli'n ddigonol i gefnogi anghenion y gwasanaeth. Adolygu'r siart strwythur er mwyn sicrhau bod staff yr uned yn deall pwy sydd mewn rolau arwain o fewn y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu.***

### **Staff ac adnoddau**

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1 – Y Gweithlu)*

Roedd nyrs Band 7 wrth y llyw yn yr uned, ond nid oedd nyrsys Band 6 ac, o ganlyniad, nid oedd gan arweinydd yr uned fawr o gefnogaeth yn ei rôl ar y safle. Oherwydd graddau a meysydd y gwendidau y canfuwyd gennym yn ystod yr arolygiad, ni allem fod yn hyderus bod y drefn reoli hon yn ddigonol i fodloni anghenion y gwasanaeth yn ddigonol ac, o'r herwydd, dylid ei hadolygu.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***O ystyried ein canfyddiadau, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r drefn reoli sydd ar waith i ofalu am yr uned a phenderfynu beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod y drefn yn ddigonol ar gyfer cymhlethdod y gwasanaeth, gan ddarparu adroddiad ar gyfer AGIC sy'n manylu ar sut y maent wedi dewis datrys hyn.***

Roedd yn ymddangos bod mynediad i hyfforddiant mewn rhai mannau'n gyfyng ac roedd hi'n ymddangos bod diffyg cefnogaeth gan gymheiriaid a thystiolaeth gyfyng bod staff yn defnyddio unrhyw gysylltiadau proffesiynol i'w helpu gyda'u datblygiad personol a chymhwysedd proffesiynol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd adolygu hyfforddiant staff yn yr uned, gan nodi unrhyw fylchau a sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant a datblygiad sydd eu hangen arnynt.***

Roedd y cynlluniau cefnogi a'r adborth a gawsom gan y staff yn golygu na allem fod yn eglur ynghylch y cyfleoedd i ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol y dylid eu defnyddio i gefnogi anghenion gofal cymhleth y cleifion sy'n derbyn gofal yn yr uned hon.

## Y Camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledau dysgu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn y gwasanaeth yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anableddau dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

## Atodiad A

Gwasanaeth Anableddau Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 7 Mehefin 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
6.	Dylid dogfennu'n fanwl anghenion iechyd unigolion fel y gall pob person sy'n darparu gofal ar eu cyfer fod yn eglur o ran pryd dylai apwyntiadau arferol ddigwydd. Bwriad hyn yw rheoli cyflyrau parhaus yn effeithiol.	1.1	<b>Sefyllfa bresennol</b> Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu'n defnyddio system cofnodion cleifion electronig (FACE), sy'n hygyrch yn y gymuned ac mewn ysbytai. Yn ogystal, mae'r uned yn cadw ffeil o gofnodion papur gyda chopïau o gynlluniau gofal a dogfennau allweddol. Nid yw gwybodaeth drwyadl y staff am y grŵp o gleientiaid yn cael ei hadlewyrchu yng nghofnodion papur y cleientiaid, ac nid oes digon o fanylder i sicrhau y gellid cyflenwi gofal sy'n canolbwyntio ar yr		



Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>unigolyn gan aelod newydd o staff. Mae cofnodion iechyd ysgrifenedig yn anodd eu canfod ar yr uned ac nid ydynt yn ddigon manwl. Mae pob aelod o staff cymwys wedi derbyn hyfforddiant cadw cofnodion o fewn y 12 mis diwethaf.</p> <p>Mewnbwn gan y meddyg teulu ymweliadol ar gyfer un sesiwn bob wythnos. Fodd bynnag, mae cysondeb rowndiau ward yn amrywio ac nid yw'r seiciatrydd ymgynghorol yn bresennol ym mhob rownd ward.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r nyrs arweiniol broffesiynol wedi ymgymryd ag adolygiad brys o holl gofnodion iechyd yr holl gleientiaid yn Nhŷ Bryn ac wedi darparu adroddiad ysgrifenedig gydag argymhellion ar gyfer Pennaeth y Gwasanaeth.</li> <li>Adolygiadau brys o bob un o'r pum cleient wedi cael eu</li> </ul>	<p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol ar gyfer Anableddau Dysgu</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>28.07.16</p> <p>07.11.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>gwneud gyda chyfraniad llawn y tîm amlddisgyblaethol er mwyn adolygu cynlluniau gofal, asesiadau risg a chynlluniau cefnogi ymddygiad cyfredol.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgymryd ag ailasesiad llawn o bob unigolyn yn unol â'r argymhellion i gynnwys o leiaf: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ dadansoddiad swyddogaethol o ymddygiad presennol sy'n cofnodi gweithrediadau'r ymddygiad</li> <li>○ gwaelodlin o amllder, dwyster a hyd cyfredol yr ymddygiad</li> <li>○ asesiad sgiliau llawn sy'n nodi sgiliau a gyflawnwyd a diffygion sgiliau</li> <li>○ asesiad synhwyrdd llawn a phroffil o anghenion synhwyrdd</li> <li>○ asesiad cyfathrebu sy'n darparu gwybodaeth ynghylch y ffyrdd gorau o ryngweithio ag unigolion ac</li> </ul> </li> </ul>	Rheolwr y Ward / Seiciatrydd Ymgynghorol	07.11.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>sy'n hysbysu ynghylch ffyrdd amgen/mwy priodol o gyfathrebu anghenion.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu proffil unigol sy'n coladu pob angen iechyd angenrheidiol ac sy'n cyfuno cefnogaeth weithgar fel rhan hanfodol o ofal.</li> <li>• Trefnu cyfarfod cyswllt clinigol wythnosol rhwng y seiciatrydd ymgynghorol, meddyg arbenigol, meddyg teulu a staff Tŷ Bryn.</li> <li>• Rheolwr y ward i fynd i'r afael â sgiliau cadw cofnodion gwael gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm ac yn unigol yn ystod sesiynau goruchwyllo.</li> <li>• Datblygu methodoleg a chynnal system archwilio i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cadw cofnodion.</li> </ul>	<p>Tîm Amlddisgyblaethol Tŷ Bryn</p> <p>Seiciatrydd Ymgynghorol</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p>	<p>15.08.16</p> <p>30.09.16</p> <p>30.09.16</p> <p>14.10.16</p>
6.	Rhoi ystyriaeth briodol i effaith defnyddio Cymraeg a Saesneg ym mhresenoldeb y cleifion ac wrth siarad yn uniongyrchol â nhw. Sicrhau bod aelodau o'r staff yn	4.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Cedwir cofnod o ddewis iaith yn y system cofnodion electronig yn y cynlluniau gofal a thriniaeth. Fodd bynnag, mae'r cofnodion papur a</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	cadw'r cleifion mewn cof wrth iddynt gyfathrebu ymysg ei gilydd, a'u bod yn gwneud hyn ar amserau priodol yn unig.		<p>gedwir ar yr uned yn aneglur o ran iaith gyntaf y cleient a/neu ddewis iaith wrth siarad.</p> <p>Nid yw cymhorthion cyfathrebu na gwrthrychau cyfeirio ar gael yn hawdd.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i bob cynllun gofal nodi'n eglur hoffterau neu anghenion unigol o ran iaith gyntaf a lefel o ddealltwriaeth.</li> <li>• Cwblhau asesiadau cyfathrebu a datblygu proffiliau sy'n nodi'r ffyrdd gorau o ryngweithio gydag unigolion a chynghori ynghylch ffyrdd o gyfathrebu amgen/mwy priodol.</li> <li>• Rhaid i bob aelod o staff gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar yr iaith Gymraeg.</li> <li>• Gweithwyr therapi iaith a lleferydd i ddarparu hyfforddiant cyfathrebu ar gyfer yr holl staff.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Pennaeth Therapi Iaith a Lleferydd</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Pennaeth Therapi Iaith a Lleferydd lechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu</p>	<p>19.08.16</p> <p>30.09.16</p> <p>30.09.16</p> <p>28.10.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr y ward i atgoffa'r staff yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm ac yn ystod sesiynau goruchwyllo am y defnydd o gyfathrebu priodol ac amserol ymysg ei gilydd.</li> </ul>	Rheolwr y Ward	30.09.16
7.	Dylai staff fod yn ymwybodol o ystafelloedd unigol y cleifion a sicrhau eu bod cyn barchused â phosibl wrth fynd i'r manau hyn.	4.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b> Ymddengys fod dealltwriaeth o breifatrwydd, urddas a hawliau cleientiaid yn amrywio'n sylweddol ymysg y staff. Er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ar breifatrwydd ac urddas, ymddengys fod bylchau yn eu gwybodaeth.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi cysylltu â Dysgu a Datblygu i ymchwilio i opsiynau ar gyfer darparu hyfforddiant/sesiynau adfyfyriol ar breifatrwydd ac urddas.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu cofnodion hyfforddi staff a sicrhau cydymffurfiaeth 100% â'r modiwl e-ddysgu ar urddas a</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth	04.08.16
				Rheolwr y Ward	30.09.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>pharch.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod rheolwr y ward yn hysbysu'r holl staff o ymddygiad disgwylidig yn ystod sesiynau goruchwyllo unigol.</li> <li>Nodi hyfforddiant/sesiynau adfyfyriol i godi ymwybyddiaeth a thrafodaethau ynghylch gwerthoedd sefydliadol y bwrdd iechyd a lansiwyd yn ddiweddar.</li> <li>Darbwylllo cydgysylltwyr gofal iechyd i ymgymryd ag 'Arsylwadau Gofal' wrth ymweld â'r uned ac adrodd eu canfyddiadau i reolwr y gwasanaeth. Caiff unrhyw bryderon eu huwchgysylltu yn eu tro i bennaeth y gwasanaeth.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>26.08.16</p> <p>30.09.16</p> <p>28.10.16</p>
7.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r holl waith sydd heb ei gyflawni ar ffenestri ystafelloedd gwely'r cleifion ar frys fel y gellir defnyddio bleinds a llenni priodol.	4.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Roedd rheolwr y ward yn mynd i'r afael â'r diffyg llenni a bleinds yn ystafelloedd y cleifion.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnwyd i'r rheolwr gweithrediadau (Ystadau)</li> </ul>	Pennaeth Ystadau	04.08.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>sicrhau gwaith brys i osod llenni a bleinds yn yr ystafelloedd gwely i gyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfarfodydd bob yn ail fis wedi'u hailsefydlu rhwng rheolwyr y ward, y rheolwr gwasanaeth, a'r adran ystadau i fonitro a mynd i'r afael â materion ystadau a chynnal a chadw parhaus.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r rhestr o'r holl atgyweiriadau a chamau gweithredu heb eu cyflawni.</li> <li>Uwchgyfeirio canfyddiadau i gyfarwyddwr cynorthwyol ystadau / cyfarwyddwr cynorthwyol iechyd meddwl ac anableddau dysgu a chytuno ar raglen waith.</li> <li>Bydd rheolwr y ward yn uwchgyfeirio unrhyw faterion cynnal a chadw brys y tu hwnt i'r cyfarfodydd bob yn ail fis i'r rheolwr gwasanaeth pan nad ydynt yn cael eu datrys mewn modd amserol.</li> </ul>	<p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>01.08.16</p> <p>26.08.16</p> <p>26.08.16</p> <p>22.08.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
7.	Dylai rheolwr yr uned adolygu'r system ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw oedi gan y tîm cynnal a chadw er mwyn osgoi arosiadau cyhyd â hwn yn y dyfodol.	4.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b>  Bu diffyg uwchgyfeirio pryderon yn rheolaidd i reolwr y gwasanaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â chynnal a chadw.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rheolwr y gwasanaeth wedi derbyn rhestr gyfredol o atgyweiriadau heb eu cyflawni ar gyfer Tŷ Bryn.</li> <li>Cyfarfodydd bob yn ail fis wedi'u trefnu gyda rheolwr y ward, rheolwr gwasanaeth, a rheolwr gweithrediadau ystadau, a fydd yn dechrau ar 15 Awst 2016.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr y ward i gwrdd â rheolwr y gwasanaeth i flaenoriaethu'r atgyweiriadau angenrheidiol sydd heb eu cyflawni.</li> <li>Rheolwr y ward a phennaeth y gwasanaeth i gytuno ar system uwchgyfeirio pryderon yn ymwneud â'r ystâd y tu hwnt i'r</li> </ul>	<p>Tîm Ystadau</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>01.08.16</p> <p>03.08.16</p> <p>15.08.16</p> <p>22.08.16</p>



Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>cyfarfodydd bob yn ail fis.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu unrhyw ddiffyg cyrhaeddiad â'r cyfarwyddwr cynorthwyol (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) gan ddefnyddio'r strwythur goruchwyllo ffurfiol, ac, os yn berthnasol, â chyfarfodydd ystadau a chyfalaf.</li> </ul>	Pennaeth y Gwasanaeth	26.08.16
7.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau rhwng y tîm cynnal a chadw a'r gwasanaethau anabledd dysgu er mwyn sicrhau y caiff ceisiadau ac amserau ateb eu blaenoriaethu'n briodol a rhesymol i alluogi'r cleifion hynny y mae'r uned hon yn gartref iddynt i fyw mewn amgylchedd cyn hyfryded â phosibl.	4.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b> Ar hyn o bryd, nid oes trefniad i adolygu a blaenoriaethu materion ystadau a chynnal a chadw.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarfodydd bob yn ail fis wedi'u trefnu gyda rheolwr y ward, rheolwr gwasanaeth, a rheolwr gweithrediadau ystadau, a fydd yn dechrau ar 15 Awst 2016.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu unrhyw ddiffyg cyrhaeddiad â'r cyfarwyddwr cynorthwyol (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) gan ddefnyddio'r strwythur</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth  Pennaeth y Gwasanaeth	03.08.16  26.08.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			goruchwyllo ffurfiol, ac, os yn berthnasol, â chyfarfodydd ystadau a chyfalaf.		
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu addasrwydd y lleoliad a sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi gan weithgareddau sy'n mwyhau eu potensial o gael eu lleoli mewn gwasanaethau mwy cartrefol.	6.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Mae gan bob cleient gydgysylltwyr gofal sydd, fel rhan o'u rôl, yn sicrhau bod anghenion y cleientiaid yn cael eu diwallu mewn lleoliad priodol. Mae gan bob cleient gynlluniau gofal a thriniaeth ar waith, ond cydnabyddir bod angen datblygu'r rhain ymhellach. Mae pob cleient yn derbyn adolygiadau o'u cynlluniau gofal a thriniaeth yn unol â deddfwriaeth iechyd meddwl.</p> <p>Mae Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn cael ei gynnwys yn adolygiadau clinigol pob un o'r pum cleient.</p> <p>Mae'r Bwrdd Rhaglen Anableddau Dysgu wedi'i sefydlu'n ddiweddar yn dilyn adolygiad o gyfleusterau cleifion mewnol yn ystod 2015/16, a chyflwynwyd gwerthusiad opsiynau drafft dilynol i'r bwrdd hwn. Bydd y Bwrdd Rhaglen yn ystyried sut y bydd y gwasanaeth yn cyflenwi</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>cyfleusterau cleifion mewnol y gwasanaeth anableddau dysgu yn y dyfodol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn diwallu anghenion y boblogaeth leol yn fwy effeithiol.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adolygiadau blynyddol cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer dau gleient wedi cael eu cynnal gyda chyfraniad teulu/gofalwyr i drafod anghenion gwasanaeth cyfredol ac anghenion ar gyfer y dyfodol.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adolygiadau blynyddol o gynlluniau gofal a thriniaeth y tri chleient sy'n weddill wedi'u cynllunio, gyda'r teulu/gofalwyr yn cymryd rhan, i drafod anghenion gwasanaeth cyfredol ac anghenion y dyfodol.</li> <li>Bydd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu adroddiad sy'n amlinellu opsiynau o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer pob un o'r pum cleient.</li> <li>Cynllunio adolygiadau</li> </ul>	<p>Cydgysylltydd Gofal / Ymgynghorydd</p> <p>Cydgysylltydd Gofal / Ymgynghorydd</p> <p>Cydgysylltydd Gofal / Ymgynghorydd</p> <p>Cydgysylltydd</p>	<p>13.07.16</p> <p>30.09.16</p> <p>14.10.16</p> <p>30.09.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>ychwanegol a pharhaus y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod anghenion y cleientiaid yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Rhaid sicrhau bod teuluoedd/gofalwyr ac Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau hyn.</p>	Gofal / Ymgynghoryd	
8.	<p>Yn ystod ein harolygiad, cododd AGIC bryderon ynghylch ansawdd gwael y gweithgareddau oedd ar gynnig i'r cleifion yn yr uned hon a gofynnwyd i'r gwasanaeth adolygu'r dull o gefnogi cleifion a'r gofal a ddarperir yn yr uned. Mae AGIC yn gofyn am ateb manwl sy'n arddangos beth sydd wedi'i wneud a beth fydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.</p>	6.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b>  Nid yw'r rhaglen weithgareddau wedi derbyn mewnbwn eang gan y tîm amlddisgyblaethol o ran ei datblygiad, ac o'r herwydd nid yw'n amlygu'r cyfleoedd i fwyhau potensial y cleientiaid. Nid oes cynlluniau cefnogi gweithredol, ac ymddengys fod y gweithgareddau'n amharod i gymryd risg a heb fod yn gynyddol.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhawyd adolygiad brys o'r holl gofnodion iechyd a rhaglenni gweithgareddau'r holl gleientiaid yn Nhŷ Bryn ynghyd ag</li> </ul>	Nyrs Arweiniol Broffesiynol	14.06.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>adroddiad ysgrifenedig gydag argymhellion.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd rheolwr y ward yn gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad a ddatblygwyd gan y nyrs arweiniol broffesiynol, a bydd hyn yn dechrau ar unwaith.</li> <li>• Ymgymryd ag adolygiad o gyfleoedd yn ystod y dydd sy'n dangos bod profiadau newydd yn cael eu hannog a'u ceisio a bod gweithgareddau'n cael eu hadolygu/newid yn rheolaidd i osgoi cyfyngu ar gyfleoedd.</li> <li>• Gwella'r system gyfredol lle caiff safbwyntiau unigolion, eiriolwyr a theuluoedd eu hadlewyrchu yn y penderfyniadau a wneir ynghylch sut y darperir cefnogaeth a chyfleoedd ar hyn o bryd.</li> <li>• Gosod nodau personol sydd o bwys i'r cleient, sy'n cefnogi dewis, ac sydd â dogfennaeth ategol o ran gwneud penderfyniadau.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Therapydd Galwedigaethol</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Cydgysylltydd Gofal / Ymgynghorydd</p>	<p>30.11.16</p> <p>16.09.16</p> <p>30.09.16</p> <p>30.09.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i'r tîm amlddisgyblaethol adolygu asesiadau risg presennol a datblygu asesiadau risg uwch ar gyfer pob gweithgaredd sy'n mynd i'r afael â'r angen am fentro cadarnhaol.</li> <li>Sefydlu cynllun defnyddwyr gwasanaeth/adolygiadau gan gymheiriaid.</li> </ul>	<p>Cydgysylltydd Gofal / Ymgynghoryd</p> <p>Pennaeth Nyrzio</p>	<p>16.09.16</p> <p>18.11.16</p>
9.	Nid oedd y gwasanaeth hwn yn darparu lefelau da o ofal unigoledig, ac nid arddangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'r rhesymau y mae hi'n bwysig sicrhau bod gofal yn cael ei gynllunio'n ofalus ar gyfer pob unigolyn. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu gwybodaeth a chymhwysedd y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwn. Dylai anghenion gofal gael eu hailasesu gan dîm amlddisgyblaethol i sicrhau nad yw cyfyngiadau unigol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl gleifion.	6.1 a 6.2	<p><b>Sefyllfa bresennol</b> Mae adolygiad o gofnodion iechyd yn dangos diffyg gofal unigoledig sy'n canolbwyntio ar y person, sef y dull a ddefnyddir mewn gwasanaethau anabledau dysgu. Mae'r cofnodion cleifion electronig diwygiedig (Care Partner) yn cynnwys ffordd o lanlwytho pob proffil ar bapur i'r un system.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygwyd matrices hyfforddiant a chaiff ei gwblhau gyda'r staff i helpu i nodi anghenion hyfforddi disyfyd.</li> <li>Cyfraniad llawn y tîm</li> </ul>	<p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr y Ward /</p>	<p>20.07.16</p> <p>13.07.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>amlddisgyblaethol estynedig gyda mynediad di-oed at gyngor gan weithwyr proffesiynol eraill.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ailasesiad llawn o bob unigolyn a fydd yn cynnwys o leiaf: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ dadansoddiad swyddogaethol o ymddygiad presennol sy'n cofnodi gweithrediadau'r ymddygiad</li> <li>○ gwaelodlin o amlder, dwyster a hyd cyfredol yr ymddygiad</li> <li>○ asesiad sgiliau llawn sy'n nodi sgiliau a gyflawnwyd a diffygion sgiliau</li> <li>○ asesiad synhwyrdd llawn a phroffil o anghenion synhwyrdd</li> <li>○ asesiad cyfathrebu.</li> </ul> </li> <li>• Defnyddio'r system cofnodion cleifion electronig diwygiedig (Care Partner) ar gyfer y fformat proffil unigol sy'n coladu'r holl wybodaeth angenrheidiol mewn un lle ac sy'n cynnwys</li> </ul>	<p>Seiciatrydd Ymgynghorol</p> <p>Rheolwr y Ward / Seiciatrydd Ymgynghorol</p> <p>Rheolwr y Ward / Cydgysylltydd Gofal</p>	<p>07.11.16</p> <p>07.11.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>cefnogaeth weithgar fel rhan hanfodol o ofal.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddiant staff ar gefnogaeth weithgar a rheoli risgiau cadarnhaol.</li> <li>Cyflawni adolygiad o hyfforddiant y staff hyd yn hyn a cheisio safbwyntiau'r staff ynghylch anghenion hyfforddi pellach. Cytuno a gweithredu unrhyw anghenion dysgu a datblygu a nodwyd.</li> </ul>	<p>Tîm Ymyrraeth a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBIS)</p> <p>Rheolwr y Ward / Rheolwr Gwasanaeth</p>	<p>16.09.16</p> <p>30.09.16</p>
9.	O ran unrhyw gyfyngiadau a osodir ar gleifion o dan y Ddeddf lechyd Meddwl neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, dylai'r holl ddogfennau gael eu hysgrifennu'n eglur ac fe ddylent esbonio a chyfeirio at yr holl gyfyngiadau'n eglur.	2.7	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Ansawdd amrywiol dogfennaeth mewn cysylltiad â gwaith papur cysylltiedig â chyfyngiadau cyfreithiol o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Tystiolaeth wael o ran rhesymeg dros wneud penderfyniadau ynghylch gosod cyfyngiadau. Mae adran weinyddol y Ddeddf lechyd</p>		



Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Meddwl yn craffu ar yr holl ddogfennau cyfreithiol cysylltiedig â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i'r holl gynlluniau gofal gael eu diweddarau gyda chyfraniad llawn y tîm amlddisgyblaethol a rhaid i aseswyr lles gorau amlygu'r rhesymeg dros osod cyfyngiadau ar gleientiaid.</li> <li>Rhaid i reolwr y ward ddefnyddio cyfarfodydd tîm a sesiynau goruchwyliaeth unigol i sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gofynion cadw cofnodion.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward / Cydgysylltydd Gofal / Seiciatrydd Ymgynghorol</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>22.08.16</p> <p>30.09.16</p>
10.	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gofal ymataliaeth a gyflenwir i gleifion i sicrhau ei fod yn unol ag arfer gorau, a'i fod yn parchu preifatrwydd, urddas a dewis unigolion.	6.1 a 3.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Nid yw'n eglur pryd yr adolygwyd gofal ymataliaeth ddiwethaf ar gyfer yr unigolyn dan sylw. Nid oes dogfennaeth sy'n dangos bod y gofal ymataliaeth a ddarperir yn seiliedig ar dystiolaeth, yn unigoledig, ac yn mynd i'r afael â materion ynghylch preifatrwydd ac urddas.</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi gwneud atgyfeiriad i'r nyrs cyngori ar ymataliaeth, i sicrhau bod y gofal yn unol â'r arfer gorau a'i fod yn parchu preifatrwydd, urddas a dewis unigolion.</li> </ul>	Cydgysylltydd Gofal	01.08.16
10.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gweithredu ei system ei hun ar gyfer ceisio adborth gan y sawl sy'n gysylltiedig â derbyn gofal ganddo.	6.3	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Yn ogystal ag adolygiad blynyddol y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, cyflawnir arolwg hanfodion gofal blynyddol y bwrdd iechyd bob hydref. Mae'r arolwg yn cynnwys safbwyntiau ac adborth staff, cleientiaid a gofalwyr ynghylch y gwasanaeth a ddarperir. Darperir cefnogaeth ragweithiol gan y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol er mwyn ceisio meddyliau'r cleientiaid, ond gellir ymchwilio i ddulliau ychwanegol.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i dîm rheoli'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu a thîm amlddisgyblaethol Tŷ Bryn wella ymhellach y dulliau cyfredol o</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth / Pennaeth Therapi Iaith	30.09.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			gael adborth gan y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth (e.e. Matiau Siarad).	a Lleferydd lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu / Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol	
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
11.	Dylai'r bwrdd iechyd ailystyried y polisi neilltuaeth a sicrhau y gellir ei ddefnyddio i gefnogi staff yn ddigonol wrth iddynt reoli ymddygiadau heriol. Sicrhau bod y staff yn deall yr hyn a olygir gan neilltuaeth. Sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith i ddiogelu staff a chleifion pan fyddant ar eu pennau eu hunain am unrhyw gyfnodau.	2.7	<b>Sefyllfa bresennol</b> Mae dealltwriaeth amrywiol o ran beth mae gwahaniad/neilltuaeth yn ei olygu yn yr uned. Mae hyfforddwr arweiniol y tîm rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gweithio'n agos gyda'r staff i'w haddysgu am yr arferion lleiaf cyfyngol.  <b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae grŵp o weithwyr proffesiynol ar hyd disgyblaethau wedi cael eu henwi er mwyn ymgysylltu ag adolygiad o bolisi neilltuaeth y bwrdd iechyd.</li> </ul>	Pennaeth Nyrsio	25.07.16

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid adolygu a diweddarau polisi neilltuaeth y bwrdd iechyd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a NICE ynghylch arferion cyfyngol.</li> <li>Caiff staff eu hatgoffa a'u hyfforddi yn y defnydd o'r polisi neilltuaeth cyfredol.</li> <li>Cysylltu â rhwydweithiau anabledd dysgu lleol a chenedlaethol i nodi arfer gorau a llywio adolygiadau o'r polisi neilltuaeth.</li> </ul>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol</p> <p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol / Pennaeth Gwasanaeth</p>	<p>30.12.16</p> <p>30.09.16</p> <p>25.11.16</p>
12.	Adolygu'r defnydd o strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn yr uned a sicrhau mai'r ymyriadau mwyaf priodol posibl yw'r rhain.	2.7	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Mae'r staff i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant gorfodol ar reoli ymddygiad cadarnhaol. Mae cefnogaeth allanol gan y Tîm Ymyrraeth a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol er mwyn datblygu cynlluniau cymorth ymddygiad wedi bod yn ddiffygiol.</p> <p>Mae dogfennaeth wael yn bodoli a allai gael ei chamddehongli neu sy'n</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>brin o'r manylion angenrheidiol i atal digwyddiadau neu reoli ymyriadau'n ddiogel.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r nyrs arweiniol broffesiynol wedi ymgymryd ag adolygiad brys o holl gofnodion iechyd yr holl gleientiaid yn Nhŷ Bryn ac mae wedi darparu adroddiad ysgrifenedig gydag argymhellion fel yr amlinellir yn yr adran <i>Camau gweithredu a gynlluniwyd.</i></li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella cynlluniau cymorth ymddygiad y cleifion presennol sydd yn flaengar ac yn gyraeddadwy ym mhob amgylchedd, ac a fesurwyd yn erbyn safonau NG11 NICE (Ymddygiad Heriol ac Anableddau Dysgu).</li> <li>Adolygu'r hyfforddiant rheoli ymddygiad cadarnhaol a ddarperir i'r tîm staff. Rhoddir ystyriaeth i hyfforddiant pwrpasol</li> </ul>	<p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol</p> <p>Seicolegydd / Tîm Ymyrraeth a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol</p> <p>Arweinydd Hyfforddiant Rheoli Ymddygiad</p>	<p>14.06.16</p> <p>30.09.16</p> <p>30.09.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			yn y fan a'r lle i fynd i'r afael â phriodoldeb y technegau a ddefnyddir ar hyn o bryd.	Cadarnhaol	
12	Dylid adolygu dewisiadau'r fwydlen i sicrhau eu bod mor gytbwys â phosibl a'u bod yn cynnwys digon o ffrwythau a llysiau i ddiwallu canllawiau cyfredol arbenigwyr ac arfer gorau.	1.1 a 2.5	<p><b>Sefyllfa bresennol</b> Codwyd pryderon yn ddiweddar gan reolwr y gwasanaeth ym mis Mehefin 2016 mewn perthynas â natur y bwyd oedd yn cael ei brynu ar gyfer y cleientiaid.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhawyd archwiliad i olrhain 12 mis o bryniannau i ddeall hyn yn well.</li> <li>• Mae rheolwr y ward wedi ymgysylltu â rhaglen y Grŵp Maethol.</li> <li>• Cyflwynwyd canfyddiadau'r archwiliad i reolwr y ward ac yng nghyfarfod busnes anabledd dysgu.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd rheolwr y ward yn datblygu cynllun gweithredu ar sail canfyddiadau'r archwiliad,</li> </ul>	<p>Rheolwr Lles Cleifion</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>24.06.16</p> <p>20.05.16</p> <p>25.07.16</p> <p>16.09.16</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			gweithredu'r cynllun, ac adrodd am hynt y cynllun hwnnw.		
14.	<p>Nid yw'r adolygiadau amlddisgyblaethol wedi cynnwys pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol ac felly nid yw'r cynlluniau cefnogi wedi bod yn wirioneddol holistaidd ac maent wedi bod yn brin o ganllawiau arbenigol mewn rhai meysydd. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y clefion y maent yn darparu gofal anabledd dysgu arbenigol ar eu cyfer yn derbyn y mewnbwn hwn i'w cynlluniau cefnogi a thriniaeth, gan sicrhau eu bod yn ymchwilio i'r holl opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau'r adnodd arbenigol angenrheidiol ar gyfer cynllunio gofal holistaidd.</p>	3.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b>  Mae tîm amlddisgyblaethol y ward wedi bod yn brin o fewnbwn gan wahanol ddisgyblaethau sy'n gweithio yn nhimau'r gymuned ers cryn amser. Mae rheolwyr newydd y tîm cymunedol anableddau dysgu wedi dangos cynnydd o ran mwyhau'r mewnbwn hwn, ond mae angen mwy o waith i sicrhau cyfraniadau cyson a chynaliadwy. Mae hwn yn arbennig o amlwg o ran yr angen ar gyfer therapi iaith a lleferydd, a chyfraniadau gan y gwasanaeth ymyrraeth a chymorth ymddygiad cadarnhaol.  Datblygwyd swydd therapi galwedigaethol newydd ar gyfer y ddwy ward clefion mewnol a gwnaethpwyd penodiad ym mis Mehefin 2016.  Mae Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol ac Eiriolaeth lechyd Meddwl Annibynnol yn cael eu defnyddio'n</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>aml ar gyfer pob un o'r pum cleient, gan sicrhau bod lleisiau'r cleientiaid yn cael eu hystyried ac y glynir wrth eu cyfraniadau ynghylch eu gofal eu hunain.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhaliwyd cyfarfodydd brys gan y tîm amlddisgyblaethol i ailasesu cynlluniau gofal a rheoli ymddygiad ar gyfer pob un o'r pum cleient.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i arweinwyr tîm cymunedol anabledau dysgu sicrhau bod y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys yn fwy ac yn rheolaidd ar wardiau'r cleifion mewnol, yn arbennig o ran cyfraniadau therapi iaith a lleferydd a thîm ymyrraeth a chymorth ymddygiad cadarnhaol.</li> <li>• Ailasesiad llawn gan y tîm amlddisgyblaethol o bob unigolyn a fydd yn cynnwys o leiaf: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ dadansoddiad</li> </ul> </li> </ul>	<p>Cydgysylltydd Gofal / Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwyr Tîm Cymunedol Anabledau Dysgu / Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Cydgysylltydd Gofal / Seiciatrydd Ymgynghorol</p>	<p>28.07.16</p> <p>26.08.16</p> <p>07.11.16</p>



Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>swyddogaethol o ymddygiad presennol sy'n cofnodi gweithrediadau'r ymddygiad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ gwaelodlin o amllder, dwyster a hyd cyfredol yr ymddygiad</li> <li>○ asesiad sgiliau llawn sy'n nodi sgiliau a gyflawnwyd a diffygion sgiliau</li> <li>○ asesiad synhwyrdd llawn a phroffil o anghenion synhwyrdd</li> <li>○ asesiad cyfathrebu.</li> </ul>		
15.	Adolygu'r gefnogaeth gyfathrebu a gynigir i gleifion a sicrhau y bachir ar y cyfle i fwyhau eu dealltwriaeth a'u cyfraniadau trwy ddefnyddio cymhorthion a strategaethau priodol.	3.2	<p><b>Sefyllfa bresennol</b> Mae cymhorthion cyfathrebu'n bresennol ar y ward ond maent yn anodd eu defnyddio ac nid ydynt yn cefnogi staff yn y modd amserol angenrheidiol wrth ymateb i anghenion cleientiaid.</p> <p>Mae diffyg mewnbwn gan therapi iaith a lleferydd wedi arwain at ddefnyddio asesiadau cyfathrebu sydd wedi'u dyddio.</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y darperir cefnogaeth therapi iaith a lleferydd ar gyfer Tŷ Bryn a bod yr holl gleientiaid yn derbyn asesiad cyfathrebu a bod ganddynt gynllun ar waith ac y pennir dyddiadau adolygu rheolaidd.</li> </ul>	Pennaeth Therapi Iaith a Lleferydd lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	26.08.16
15.	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu safon y cofnodion a gedwir yn yr uned. Roedd y manylion a gofnodwyd ar adeg ein harolygiad yn annigonol er mwyn darparu cofnod manwl a dibynadwy o anghenion cefnogi unigol ar gyfer staff. Roedd y cofnodion wedi'u trefnu a'u cynnal yn wael; gwnaethom nodi diffyg dyddiadau a llofnodion, a oedd yn golygu nad oedd hi'n bosibl gwybod pa mor ddiweddar oedd y cofnodion.</p> <p>Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r diffygion hyn.</p>	3.5	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Cedwir cyfuniad o gofnodion papur ac electronig ar gyfer y cleifion. Mae cyflwyno system cofnodion electronig ddiwygiedig (Care Partner) wedi dangos bod angen trosglwyddo cofnodion papur i ddogfennau Word, a ellir lanlwytho wedyn i'r cofnod electronig. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi sefydlu proses archwilio ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth.</p> <p>Mae'r holl staff nyrsio cymwys wedi derbyn hyfforddiant ar gadw cofnodion yn ystod y 12 mis diwethaf.</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu safonau'r cofnodion a gedwir ar yr uned.</li> </ul> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod cofnodion yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gyflawni cynlluniau rheoli ymddygiad a chynlluniau gofal ac wrth bennu nodau cyfredol.</li> <li>• Trefnu cyfarfodydd cyswllt clinigol rheolaidd rhwng y seiciatrydd ymgynghorol, meddyg arbenigol, meddyg teulu a staff Tŷ Bryn.</li> <li>• Rheolwr y ward i fynd i'r afael â sgiliau cadw cofnodion amrywiol gyda'r staff yn ystod sesiynau goruchwyllo unigol.</li> <li>• Cyflawni ailarchwiliad o gofnodion clinigol yn unol â safonau cadw cofnodion y bwrdd iechyd.</li> </ul>	<p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol</p> <p>Ymgynghoryd d / Cydgysylltydd Gofal</p> <p>Ymgynghoryd d</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Nyrs Arweiniol Broffesiynol</p>	<p>14.06.16</p> <p>07.11.16</p> <p>10.08.16</p> <p>30.09.16</p> <p>16.12.16</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Sicrhau bod y strwythur rheoli'n ddigonol i gefnogi anghenion y gwasanaeth. Adolygu'r siart strwythur er mwyn sicrhau bod staff yr uned yn deall pwy sydd mewn rolau arwain o fewn y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu.	7.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b>  Mae rheolwr Band 7 y ward yn gweithio ar sail dros dro ar hyn o bryd.  Mae goruchwyliaeth reolaidd yn digwydd gyda rheolwr y gwasanaeth i sicrhau y caiff pob pryder ei uwchgyfeirio.  Mae rheolwr y ward yn mynychu'r grŵp cyfeirio amlddisgyblaethol, sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu yn y gwasanaeth, yn fisol. Mae rheolwr y ward hefyd yn mynychu'r cyfarfod busnes misol (Dangosfwrdd).  Mae gan y gwasanaeth anabledd dysgu fodel gweithredu a gytunwyd arno sy'n deillio o strwythur gwasanaeth diwygiedig.</p> <p><b>Camau gweithredu hyd yn hyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adolygiad o strwythur rheoli'r gwasanaeth anableddau dysgu wedi'i gyflawni a'i drosglwyddo i'r holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.</li> </ul>	Cyfarwyddwr Cynorthwyol lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu / Pennaeth y	23.01.15

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Iechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adolygiad o gymysgedd sgiliau'r tîm staff yn Nhŷ Bryn wedi'i gwblhau.</li> </ul>	<p>Gwasanaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu / Pennaeth y Gwasanaeth / Pennaeth Nyrsio</p>	20.05.16
	<p>O ystyried ein canfyddiadau, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r drefn reoli sydd ar waith i ofalu am yr uned a phenderfynu beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod y drefn yn ddigonol ar gyfer cymhlethdod y gwasanaeth, gan ddarparu adroddiad ar gyfer AGIC sy'n manylu ar sut y maent wedi dewis datrys hyn.</p>	7.1	<p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysebu am reolwr ward Band 7 llawn amser, parhaol.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaeth	19.08.16
18.	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu hyfforddiant staff yn yr uned, gan nodi unrhyw fylchau a sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at yr</p>	7.1	<p><b>Sefyllfa bresennol</b></p> <p>Mae graddau cydymffurfio'r staff o ran gofynion hyfforddiant gofynnol a hanfodol yn rhagorol. Fodd bynnag,</p>		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon lechyd a Gofal	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	hyfforddiant a datblygiad sydd eu hangen arnynt.		<p>dengys y canfyddiadau'n eglur fod gorddibyniaeth ar ddiweddariadau blynyddol fel y dull ffafriedig o gadw'r staff yn gyfredol ac o ddarparu gofal yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na chynlluniau hyfforddiant a datblygiad unigoleddig a phwrpasol ar gyfer pob aelod o staff sy'n briodol ar gyfer y grŵp o gleientiaid.</p> <p><b>Camau gweithredu a gynlluniwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgymryd ag adolygiad o hyfforddiant staff hyd yn hyn a chasglu safbwyntiau'r staff ynghylch anghenion hyfforddi pellach. Cytuno a gweithredu unrhyw anghenion dysgu a datblygu a nodwyd.</li> </ul>	Rheolwr y Ward / Rheolwr Gwasanaeth	30.09.16

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras): Libby Ryan-Davies**

**Teitl: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**

**Dyddiad: 4 Awst 2016**